Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Triniaeth amledd radio pylsedig i reoli poen

Nod y daflen hon yw rhoi gwybodaeth i chi am Driniaeth amledd radio pylsedig  ac i ateb rhai cwestiynau a allai fod gennych. Sylwch y gall lleoedd gwahanol wneud pethau'n wahanol. Bydd eich meddyg yn gallu esbonio beth i'w ddisgwyl yn fanylach.


**Beth yw amledd radio pylsedig?**
Mae amledd radio pylsedig yn driniaeth sy'n ceisio newid y ffordd y mae poen yn cael ei drosglwyddo o'r nerf i'r ymennydd. Mae'r nerf yn cael ei gynhesu gan ddefnyddio dyfais arbennig, a elwir yn beiriant amledd radio. Mae hyn yn achosi newidiadau i'r nerf a all leddfu poen trwy atal negeseuon poen rhag cyrraedd yr ymennydd. Nid yw negeseuon eraill o'r nerf yn cael eu rhwystro.

**Ai hon yw'r driniaeth iawn i mi?**
Os oedd y chwistrelliad anesthetig lleol diagnostig wedi lleddfu'ch poen yn dda, mae'n bosibl y bydd eich poen yn cael ei leddfu am gyfnod hirach ar ôl y weithred amledd radio pylsedig.  Bydd opsiynau triniaethol eraill yn cael eu trafod gyda chi cyn penderfynu cael y weithred ac mae angen eich caniatâd. Eich meddyg a chi fydd yn penderfynu a fyddwch yn cael y weithred ai peidio. Bydd eich meddyg yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y tebygolrwydd y bydd y driniaeth hon yn gweithio i chi a sut mae'n cyd-fynd â gofal arall. Os nad ydych wedi penderfynu a ydych am gael y weithred ai peidio, yna gellir rhoi mwy o gyngor a gwybodaeth i chi. Siaradwch â'ch meddyg i gael rhagor o wybodaeth.
Os yw eich iechyd wedi newid, mae'n bwysig eich bod yn dweud hynny wrth eich meddyg.

► Os oes gennych haint yn eich corff, efallai y bydd eich meddyg yn aros nes bod yr haint wedi clirio cyn rhoi'r driniaeth.
► Os ydych wedi dechrau cymryd meddyginiaethau gwrthgeulo neu wrthblatennau sy'n "teneuo'r gwaed" fel warfarin, heparin, apixaban, rivaroxaban neu clopidogrel, efallai y bydd angen mwy o baratoi cyn i chi gael y driniaeth.
► Os oes gennych unrhyw alergeddau.
► Os ydych yn feichiog
► Os oes gennych reolydd calon neu fewnblaniadau trydanol eraill

**A fyddaf yn profi unrhyw sgîl-effeithiau?**
Yn anffodus, ni all unrhyw driniaeth boen ddigwydd heb risg. Nid oes unrhyw sicrwydd ychwaith y bydd y driniaeth hon yn lleddfu'ch poen.
Gall sgîl-effeithiau gynnwys:
► Cleisio a/neu teimlo ychydig yn dyner ar safle'r weithred sydd fel arfer yn gwella yn ystod y diwrnod neu ddau cyntaf.

► Teimlad o bigo sydd yn debyg i losg haul ar hyd y croen, sydd fel arfer yn gwella gydag amser ond a all bara ychydig wythnosau. Yn anaml iawn, gall y driniaeth hon achosi llosgiadau i’r croen.
► Yn anaml iawn, efallai y bydd diffyg teimlad a/neu'n wendid yn yr ardal a gyflenwir gan y nerf targed, oherwydd bod yr anesthetig lleol yn ymledu. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y teimlad yn un dros dro a bydd yn gwella'n gyflym ymhen rhai munudau neu oriau.
► Haint. Mae hyn yn beth prin. Dylech geisio cymorth meddygol os oes gwres neu gochni o gwmpas lle cawsoch y chwistrelliad ac os yw’n dyner, neu os ydych chi'n teimlo'n boeth ac yn sâl. Efallai y bydd angen triniaeth wrthfiotig ar gyfer hyn.
► Anaml iawn y ceir anaf difrifol i'r nerf. Cymerir gofal mawr i osgoi'r cymhlethdod hwn yn ystod y weithred trwy osod y nodwyddau'n ofalus gan ddefnyddio dull uwchsain neu belydr-X a dim ond pan fydd y meddyg yn hyderus bod y nodwyddau yn y safle cywir y bydd y driniaeth yn digwydd
► Mae cymhlethdodau difrifol megis adwaith alergaidd, gwaedu sylweddol neu haint yn brin iawn.




**Beth ddylwn i ei wybod cyn y driniaeth?**
► Byddwch yn cael y driniaeth yn yr Uned Llawdriniaeth Ddydd, Ysbyty Nevill Hall, Y Fenni ac yn gadael ar yr un diwrnod.
► Dylech drefnu i rywun eich gyrru adref ar ôl eich chwistrelliad.
► Byddwch yma am gyfnod o ddwy i bedair awr.
► Byddwn yn gofyn i chi dynnu eich dillad a gwisgo gŵn theatr. Ni fydd angen i chi dynnu’ch dillad isaf.
► Bydd eich meddyg yn trafod y weithred gyda chi ac yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd. Os oes unrhyw bosibilrwydd y gallech fod yn feichiog, rhowch wybod i'r meddyg neu'r nyrs.

**Beth fydd yn digwydd i mi yn ystod y driniaeth?**
► Bydd y driniaeth yn digwydd naill ai gan ddefnyddio dull uwchsain neu belydr-X. Mae hyn yn galluogi'r meddyg i ganfod y targed i'w drin.
► Bydd gweithiwr meddygol proffesiynol yn eich paratoi ar gyfer y driniaeth. Efallai y bydd eich pwysedd gwaed a chyfradd curiad eich calon yn cael eu mesur.
► Bydd plât ffoil hunanlynol bach yn cael ei osod ar eich corff.
► Pan fyddwch yn y safle cywir bydd y meddyg yn glanhau'r ardal darged ar eich corff gyda hylif antiseptig neu chwistrell a all deimlo'n oer iawn.
► Bydd anesthetig lleol yn cael ei chwistrellu i safle'r driniaeth. Gall hyn losgi am ychydig, cyn i'r croen golli teimlad.

► Mae'n bwysig eich bod yn llonydd yn ystod y weithred gan y bydd nodwydd arbennig yn cael ei gosod yn ofalus yn y safle cywir. Gall hyn deimlo braidd yn anghyfforddus.
► Efallai y bydd y meddyg yn gofyn i chi ddweud pryd y gallwch deimlo poen ysgafn neu blyciad yn y cyhyr wrth i osodiadau'r peiriant gael eu haddasu. Mae hyn yn bwysig iawn gan ei fod yn sicrhau bod y nodwydd yn y lle iawn.
► Yna bydd gosodiadau'r peiriant yn cael eu gosod i drin y nerf trwy ei gynhesu. Yn ystod y cyfnod hwn, efallai y byddwch chi'n profi rhywfaint o boen ar safle'r driniaeth.
► Bydd gorchudd bach yn cael ei osod dros y safle.

**Beth fydd yn digwydd i mi ar ôl y chwistrelliadau?**
Ar ôl y weithred byddwch yn cael eich cludo i ardal adferiad neu ward lle bydd staff nyrsio yn gofalu amdanoch. Efallai y bydd eich pwysedd gwaed a churiad eich calon yn cael eu mesur. Byddwch yn cael cyngor pellach pan fyddwch yn barod i fynd adref.

**Beth allaf ei ddisgwyl yn y dyddiau ar ôl y driniaeth?**
Efallai y byddwch chi'n teimlo rhywfaint o ddolur neu boen ar safle'r driniaeth. Cadwch yr ardal yn sych am 24 awr ar ôl y driniaeth. Efallai bydd eich poen yn teimlo'n waeth am ychydig ddyddiau gan fod hyn yn gallu digwydd weithiau. Cymerwch eich cyffuriau lladd poen a'ch meddyginiaethau arferol a dylai hyn wella. Ceisiwch ddal i symud o gwmpas y tŷ tra'n osgoi unrhyw beth sy’n rhy anodd i chi.

**Beth allaf i ei wneud ar ôl fy nhriniaeth?**
Yn ddelfrydol, dylech drefnu i rywun aros gyda chi am 24 awr ond, os na allwch wneud hynny, dylech fod â ffôn wrth law, o leiaf. Ni ddylech yrru, defnyddio peiriannau, llofnodi dogfennau cyfreithiol, darparu gofal plant heb gymorth nac yfed alcohol hyd nes y byddwch yn ddigon da i wneud hynny. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch meddyg am gyngor.

**Pryd allaf ddychwelyd i'r gwaith ar ôl y driniaeth?**
Bydd hyn yn wahanol i wahanol bobl a gall ddibynnu ar y math o waith yr ydych yn ei wneud. Mae'n anodd rhoi cyngor cyffredinol ac felly dylech drafod hyn gyda'ch meddyg.

**Beth ddylwn i wneud yn yr wythnosau ar ôl y driniaeth?**
Wrth i'ch poen leddfu, dylech geisio cynyddu eich ymarfer corff yn raddol. Mae'n well cynyddu’ch gweithgareddau yn araf. Ceisiwch beidio â gwneud gormod oherwydd efallai y byddwch yn cael mwy o boen drannoeth. Gall eich meddyg roi cyngor mwy penodol i chi.

**Beth yw’r gofal dilynol?**
Fel arfer bydd llythyr yn cael ei anfon at eich meddyg teulu a bydd eich meddyg yn dweud wrthych beth i'w wneud ar ôl y driniaeth. Efallai y gofynnir i chi ffonio’r adran boen, i lenwi ffurflen, neu byddwch yn cael adolygiad dros y ffôn neu apwyntiad arall.

**A oes unrhyw beth arall y mae angen i mi feddwl amdano cyn y driniaeth?**
► Dewch â'ch sbectol os ydych ei hangen i ddarllen.

► Dewch ag unrhyw ddyfeisiau eraill y gallai fod eu hangen arnoch, fel cymhorthion clyw, cymhorthion symudedd ac ati.
► Dewch â rhestr o'r holl feddyginiaethau rydych yn cymryd ar hyn o bryd.
► Parhewch i gymryd eich meddyginiaeth fel arfer ar ddiwrnod y driniaeth.
► Peidiwch â derbyn y triniaethau yma am 2 wythnos  naill ai cyn neu ar ôl cael brechiad.

**I gloi...**
Ni fwriedir i'r wybodaeth yn y daflen hon gymryd lle cyngor eich meddyg neu'ch tîm gofal iechyd. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, siaradwch â'ch meddyg teulu neu cysylltwch â'ch Clinig Poen.

Ar ôl eich triniaeth, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu/Uned Mân Anafiadau/Adran Achosion Brys.
neu
Cysylltwch â'r Gwasanaeth Poen Cronig ar **01495-768699** neu **01495-765701** (09:00 i 16:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener)

Addaswyd o Daflen Wybodaeth Cleifion y Gyfadran Meddygaeth Poen ar gyfer Triniaeth Amledd radio

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**